# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Plas Isaf**

**30-32 Llannerch Road West**
**Llandrillo-yn-Rhos**
**Bae Colwyn**
**LL28 4AS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 18 Mehefin 2024.

18/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Plas Isaf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Elmtree Healthcare Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Tachwedd 2023. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r darparwr wedi gweithio'n agos gyda'r awdurdodau, a gwelsom lawer o welliannau mewn perthynas â chanlyniadau'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r ddogfennaeth gofal wedi gwella ac mae'r broses cynllunio gofal yn canolbwyntio ar anghenion pobl unigol. Gall y bobl gael gafael ar gyngor gofal iechyd mewn modd amserol a chaiff eu hiechyd ei fonitro'n rheolaidd. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn byw yn y cartref a dywedwyd wrthym fod y staff yn garedig a bod y bwyd yn flasus. Mae rheolwr parhaol bellach yn gweithio gyda'r staff gofal i fodelu arferion da. Yn ôl y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw, maent yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rôl ac mae'r rheolwr yn weladwy ac yn hawdd mynd ato. Mae angen i'r staff gwblhau rhywfaint o hyfforddiant o hyd, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau ac yn ystyried barn y bobl a'r staff gofal er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i wella.

## Llesiant

Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus yn byw yn y cartref a bod y bwyd yn flasus. Dywedodd un person wrthym, "*Staff are nice here and they know what I like".* Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu dewis sut i dreulio eu diwrnod. Roedd un person yn ymgymryd â gweithgaredd celf a chrefft ac roedd wedi bod yn bwydo'r adar yn yr ardd. Gall y bobl ddewis treulio eu diwrnod yn y lolfa neu yn eu hystafelloedd, ac mae rhai yn mynd allan gyda'u teulu neu eu ffrindiau. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod wedi prynu platiau haenog er mwyn rhoi profiad te prynhawn go iawn i'r bobl, ac maent yn mwynhau hyn. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd ag eitemau sy'n bwysig iddynt i'w helpu i deimlo'n gartrefol. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar yr amgylchedd, gan nodi ei fod yn lân ac yn gynnes. Gwnaethom nodi fod y bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod y staff yn siarad â'r bobl mewn modd cynnes a chyfeillgar. Mae'r gofal yn canolbwyntio ar anghenion pobl unigol i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau dymunol. Caiff dewisiadau a hanesion unigol y bobl eu cofnodi er mwyn sicrhau eu bod wrth wraidd y broses o gynllunio gofal. Mae eiriolwr ar gael i'r bobl os bydd ei angen arnynt er mwyn sicrhau y caiff eu hawliau unigol eu parchu. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'r protocolau lleol mewn perthynas â diogelu er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac yn cael gofal priodol. Mae'r hyfforddiant diogelu diweddaraf wrthi'n cael ei drefnu i'r staff gofal a byddwn yn cadarnhau a yw'r hyfforddiant wedi'i gyflawni yn ystod yr arolygiad nesaf.

## Gofal a Chymorth

Mae rheolwr parhaol bellach yn gweithio gyda'r staff gofal i sicrhau arferion da. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod wedi mabwysiadu dull "*back to basics*" er mwyn sicrhau bod y gofal a ddarperir a'r ddogfennaeth yn gwella. Gwnaethom nodi bod gwelliannau wedi cael eu gwneud i gynlluniau personol y bobl a'u bod yn fwy cyson, ac yn dangos llwybr archwilio da o'r gofal a roddir i'r bobl. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar ddewisiadau ac anghenion yr unigolyn sy'n cael gofal er mwyn sicrhau y gall gyflawni canlyniadau da. Mae'r taflenni cynnal rowndiau bwriadol yn dangos bod y staff yn archwilio'r bobl yn rheolaidd er mwyn sicrhau iechyd croen da ac i sicrhau lefelau maeth/hydradu digonol. Gall y bobl gael cyngor iechyd mewn modd amserol ac mae cyfarwyddiadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu dogfennu yn eu cynlluniau personol er mwyn i'r staff gofal weithredu arnynt. Mae'r trefniadau ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth yn effeithiol, mae'r rheolwr yn archwilio arferion a chaiff y canlyniadau eu rhannu â'r staff gofal er mwyn sicrhau bod arferion yn parhau i wella. Mae'r rheolwr hefyd yn archwilio marcwyr ansawdd eraill, fel digwyddiadau, damweiniau, cwympiadau a phrosesau rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod safonau da ar waith yn y cartref. Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael i'r staff gofal er mwyn sicrhau prosesau rheoli heintiau da ac mae'r amgylchedd i'w weld yn lân. Rhoddir gwybod yn briodol i'r awdurdodau am unrhyw ddigwyddiadau sy'n amharu ar ddiogelwch a hawliau'r bobl neu ar drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

## Yr Amgylchedd

Ni nodwyd yr amgylchedd fel mater i ymdrin ag ef yn yr arolygiad diwethaf. Byddwn yn edrych ar yr amgylchedd yn fwy manwl yn yr arolygiad nesaf. Yn ôl pob golwg, mae'r cartref yn lân ac yn daclus. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar amgylchedd y cartref a gallant bersonoli eu hardal bersonol. Mae'r ystafelloedd gwely a welwyd yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac maent yn lân ac yn gartrefol. Gwelsom fod gwiriadau cyfleustodau yn cael eu cynnal ar gyfer trydan, boeleri a dŵr a bod yswiriant atebolrwydd ar waith ar gyfer yr adeilad. Caiff gwiriadau tân eu cynnal bob wythnos er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac mae cynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer pob person. Mae'r cyfarpar sydd ei angen arnynt ar gyfer eu gofal ar gael i'r bobl, a chaiff ei wasanaethu'n rheolaidd. Dywedodd y rheolwr wrthym fod person cynnal a chadw a phaentio wedi cael ei gyflogi i gynnal yr amgylchedd ac i weithio ar yr ardaloedd awyr agored er mwyn i'r bobl allu eistedd y tu allan pan fydd y tywydd yn braf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn ystyried barn y bobl a'r staff gofal er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gwella'n barhaus. Darperir adroddiad ansawdd yn unol â'r gofynion rheoliadol er mwyn mesur ansawdd y gwasanaeth a roddir i'r bobl. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn cael ei gefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol a bod hyfforddiant a sesiynau goruchwylio ar gael iddo i'w gefnogi yn ei rôl. Datblygwyd cynllun olyniaeth a strwythur rheoli gwell er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n ddiogel. Mae'r gofal a roddir bellach yn adlewyrchu'r Datganiad o Ddiben ar gyfer y cartref. Mae polisïau craidd ar waith a gall y staff gofal gael gafael arnynt yn hawdd i'w helpu yn eu rôl.

Caiff y staff gofal eu goruchwylio'n rheolaidd, a chânt arfarniad blynyddol i'w cefnogi a'u galluogi i sicrhau arferion da wrth weithio. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr sy'n weladwy ac yn hawdd mynd ato. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o gofnodion staff a gwelsom fod yr arferion cyflogi yn dda, a bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Mae angen i'r staff gwblhau rhywfaint o hyfforddiant o hyd, ac mae angen i'r darparwr weithredu er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Nid yw rhai pobl yn cael gofal sy'n dilyn cyngor gweithwyr meddygol proffesiynol. Sicrhau bod y staff gofal yn ymwybodol o anghenion gofal penodol i unigolion a'u bod wedi cael hyfforddiant priodol i ddarparu'r gofal angenrheidiol. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Mae'r gwasanaeth yn anelu at sicrhau bod pob aelod o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf. Mae'r broses hon yn mynd rhagddi ar hyn o bryd, ac mae rhywfaint o hyfforddiant perthnasol heb ei gyflawni o hyd gan y staff gofal. Mae angen sicrhau bod pob aelod o'r staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf sy'n berthnasol i'w rôl, a byddwn yn cadarnhau a yw'r hyfforddiant wedi'i gyflawni yn ystod yr arolygiad nesaf. | Newydd |
| 66 | Nid yw'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio nac arfarniadau blynyddol.  Sicrhau y gall rheolwyr ddarparu sesiynau goruchwylio bob tri mis ac arfarniad blynyddol i'r holl staff. | Cyflawnwyd |
| 67 | Mae angen i'r Unigolyn Cyfrifol benodi rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru i reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/08/2024